

Gwefan  
[www.ysgolgymraeg.cymru](http://www.ysgolgymraeg.cymru)



e-bost  
[prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk)

## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL

Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid, Staff a Disgyblion** - gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel ac yn parhau i ddilyn y canllawiau wrth ymateb i her y Coronafeirws.

**Ail – agor graddol** – ‘**Ail-gydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr Haf a mis Medi**’. Wrth ymateb i gyhoeddiad y Gweinidog Addysg mi fydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ymbellhau cymdeithasol 2 fetr ac yn trefnu rhaglen iechyd a diogelwch gynhwysfawr er mwyn diogelu pawb.

**Holiadur yr Awdurdod Addysg** - diolch i chi am gwblhau'r wybodaeth ar gyfer holiadur yr Awdurdod Addysg. Gwelwyd bod 270 allan o 429 o blant am gael cyfle i dreulio cyfnod yn yr ysgol yn ystod y bedair wythnos rhwng Mehefin 29ain a Gorffennaf 24ain. Mae cyfnod yn yr ysgol yn debygol o fod yn ddiwrnod yr wythnos gyda grwpiau o tua 6 - 8 yn ddibynnol ar faint yr ystafell ddosbarth a'r niferoedd sy'n dymuno dychwelyd. Yn ystod yr wythnos mae'r athrawon wedi trefnu disgyblion i grwpiau ffrindiau ysgol yn ôl eu hadnabyddiaeth ohonynt ers mis Medi. Rydym hefyd wedi ceisio lle bod modd i sicrhau fod aelodau o'r un teulu yn medru mynychu'r ysgol ar yr un diwrnod.

**Gofynnir yn garedig i rieni / gwarcheidwaid i dderbyn barn yr athrawon dosbarth o safbwyt y dosbarthiad, mi fyddai newid un aelod o'r grŵp yn medru effeithio ar gydbwysedd y grŵp hynny ac yn gallu dylanwadu ar les disgyblion eraill. Ni fydd modd i ni greu'r grŵp perffaith i'ch plentyn a fydd yn cynnwys pob ffrind.**

**Dysgu o adref** – mi fydd dysgu o adref yn parhau i bawb fel y prif gyfrwng dysgu ac addysgu ond mi fydd cyfleoedd i gael ambell ddiwrnod neu gyfnod yn yr ysgol. Rydym yn rhagweld y bydd yr ysgol ar agor ar gyfer sesiynau wyneb i wyneb gyda'r athrawon ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau. Mi fydd staff yn parhau i drefnu ac ymateb i weithgareddau dysgu o adref ar ddydd Mercher a dydd Gwener.

**Hwb Gofal plant (gweithwyr y rheng flaen)** Mi fydd Hwb gofal plant yn parhau yn yr ysgol pob ddydd Mercher a dydd Gwener ar gyfer gweithwyr y rheng flaen sydd wedi bod yn defnyddio'r Hwb dros yr wythnosau diwethaf yn Ysgol Llwyn yr Eos a chyn hynny yn yr Ysgol Gymraeg. Rydym yn anelu i sicrhau fod plant gweithwyr y rheng flaen yn medru mynychu'r ysgol drwy gydol yr wythnos (e.e. tri diwrnod mewn dosbarth a dau ddiwrnod yn yr Hwb)

**Meithrin a Derbyn** - Mae canllawiau'r Awdurdod Addysg yn nodi na fydd disgyblion Meithrin a Derbyn yn mynychu'r ysgol yn ystod y bythefnos gyntaf o ail agor (Mehefin 29ain – Gorffennaf 10fed) mi fydd mwy o wybodaeth i ddilyn er mwyn ceisio sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gwrdd â'r staff cyn diwedd y tymor.

**Cynllunio'r ffordd ymlaen** - Mi fydd y staff yn treulio cyfnodau yn yr ysgol yn ystod y bythefnos nesaf yn ail-drefnu'r dosbarthiadau a'r safle er mwyn anelu at ymbellhau cymdeithasol o 2m. Mae'n debygol y byddwn yn trefnu system un ffordd, amseroedd penodol i wahanol flynyddoedd gyrraedd a gadael y safle ac mi fydd angen i ni gymryd tymheredd pob plentyn wrth iddynt gyrraedd y safle. Mi fydd angen i bob plentyn ddod â châs pensiliau, pecyn bwyd (yn cynnwys pecyn iâ) a dŵr pob diwrnod.

Mae'n debygol y byddwn yn parhau i ofyn i rieni / gwarcheidwaid i ollwng eu plant tu allan i gatiau'r ysgol. Mi fyddwn yn rhannu mwy o fanylion am hyn a'r trefniadau casglu plant yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mi fyddaf yn danfon llythyr atoch drwy wefan yr ysgol bob dydd Gwener er mwyn eich diweddar a'ch hysbysu o unrhyw newidiadau i'r drefn. Gallwch hefyd e bostio ar [prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk)

**Cofion gore atoch,**

**R C Williams, Pennaeth, 12/06/2020**

Gwefan  
[www.ysgolgymraeg.cymru](http://www.ysgolgymraeg.cymru)



e-bost  
[prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk)

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Dear Parents / Guardians, Staff and Pupils** - we hope you are keeping safe and well and continuing to follow the guidelines in responding to the challenge of Coronavirus.

**Gradual re-opening - 'Check in, catch up and prepare for Summer and September'.** In response to the Education Minister's announcement, the school will make every effort to achieve 2-meter social distancing and organize a comprehensive health and safety program to protect everyone.

**Education Authority Questionnaire** - thank you for completing the information for the Education Authority questionnaire. We found that 270 out of 429 children wanted the opportunity to spend time in school during the four weeks between June 29th and July 24th. Time at school is likely to be a day a week with groups of around 6 - 8 depending on the size of the classroom and the numbers wishing to return. During the week the teachers have organized pupils into school friendship groups based on their recognition of the pupils since September. We have also sought where possible to ensure that members of the same family can attend school on the same day.

**Parents / guardians are kindly asked to accept the views of the class teachers regarding the groups, changing one member of the group could affect the balance of that group and could affect the welfare of other pupils. We will not be able to create the perfect group for your child that will include all friends.**

**Learning from home** - learning from home will continue to be the main medium of teaching and learning but there will be opportunities for a few days or periods at school. We anticipate that the school will be open for face-to-face sessions with teachers on Mondays, Tuesdays and Thursdays. Staff will continue to organize and respond to home learning activities on Wednesdays and Fridays.

**Childcare Hub** (frontline workers) - the Childcare Hub will continue in school every Wednesday and Friday for frontline workers who have been using the Hub for the past few weeks at Llwyn-yr-Eos School and before at Ysgol Gymraeg. We aim to ensure that children of frontline workers can attend school throughout the week (e.g. three days in a class and two days in the Hub)

**Nursery and Reception** - The LEA's guidelines state that Nursery and Reception pupils will not be attending school during the first two weeks of re-opening (June 29th - July 10th) more information will follow to try and provide opportunities for pupils to meet staff before the end of term.

**Planning the way forward** - Staff will spend periods in school during the next fortnight re-arranging the classes and site to aim for social distancing of 2m. We are likely to arrange a one-way system, specific times for different years to arrive and leave the site and we will need to take the temperature of each child as they arrive at the school. Every child will need to bring a pencil case, packed lunch (including an ice pack) and water every day.

It is likely that we will continue to ask parents / guardians to drop their children outside the school gates. We will be sharing more details about this and the arrangements for collecting children in the coming weeks.

I will send you a letter through the school website every Friday to update you and inform you of any changes to the procedure. You can also email at [prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk)

**Best wishes to you all,**

**R C Williams, Headteacher, 12/06/2020**